



Ymyriadau polisi i gryfhau cydlyniant cymdeithasol

Rhagarweiniad

Mewn ymateb i bryderon cynyddol am begynu a rhaniadau cymdeithasol mewn cymunedau yng Nghymru ac ar draws y DU, ar ddiwedd 2024 lansiodd Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (ESJ) y Senedd [ymchwiliad i gydlyniant cymdeithasol](#).

Roedd [adroddiad terfynol y Pwyllgor](#) yn pwysleisio bod taer angen i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill weithredu ar bolisi. Ar y sail yma, roedd yn argymhell sefydlu Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol (EGSC), wedi'i gadeirio'n annibynnol, i ddatblygu gweithredu tymor byr, canolig a hir i gryfhau cydlyniant cyn etholiad y Senedd yn 2026.

Yn 2025, gofynnodd Lywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ddarparu cymorth drwy dystiolaeth benodol i'r EGSC i oleuo ei waith yn adnabod y gweithredu hwn. I wneud hyn, cyflawnodd WCPP adolygiad o'r dystiolaeth o ymyriadau cydlyniant cymdeithasol gan ymateb i'r cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Pa ymyriadau polisi ac ymarfer sy'n effeithiol gyda hyrwyddo a chryfhau cydlyniant cymdeithasol?
2. Pa weithredu polisi posib ar gyfer Cymru a awgrymir yn y dystiolaeth o ymyriadau cydlyniant cymdeithasol?

Mae'r adolygiad yn defnyddio diffiniad gweithio 2021-2026 Llywodraeth Cymru o gydlyniant sy'n nodi mai 'cydlyniant yw i ba raddau y mae pobl mewn cymuned yn trin ei gilydd gyda pharch, yn cyd-dynnu a chyfranogi i sicrhau y gall pawb ymarfer eu hawliau dynol a chyflawni eu potensial.' (Llywodraeth Cymru, 2026, n.d.).

Dulliau

Defnyddiwyd dull pragmataidd a chwim i adolygu tystiolaeth swmpus o fewn amserlen dynn EGSC. Fe wnaethom flaenoriaethu llenyddiaeth academiaidd a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor ESJ, ynghyd â thystiolaeth wedi'i rhannu gan aelodau o'r EGSC drwy alwad am gyflwyniadau. Fe wnaethom hefyd adolygu'r dystiolaeth gyfunol bresennol ar ymyriadau i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Cafodd pob ffynhonnell ei sgrinio yn erbyn ein meini prawf cynhwysiant gan olygu bod 28 astudiaeth wedi eu cynnwys yn yr adolygiad terfynol.

Canfyddiadau Allweddol

Ymyriadau polisi ac ymarfer i gryfhau cydlyniant cymdeithasol

Mae ystod eang o ymyriadau'n dangos effeithiau cadarnhaol ar wahanol agweddau ar gydlyniant cymdeithasol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth y gwahanol ymyriadau, eu heffeithiolrwydd mewn gwahanol gyd-destunau a sut y mesurir eu canlyniadau'n ei gwneud yn anodd cymharu canfyddiadau'r astudiaeth a dod i gasgliadau am beth sy'n gweithio orau. Hefyd, mae'r dystiolaeth yn nodi'n glir bod cyd-destun cymdeithasol mwy cyffredinol yn dylanwadu ar ganlyniadau cydlyniant a'r potensial i ymyriadau gael canlyniadau anfwriadol. Mae hyn yn awgrymu y gall *sut* y mae ymyriad yn cael ei ddylunio a'i ddarparu'r un mor bwysig â *beth* y mae'r ymyriad yn ei ddarparu.

O gofio'r amrywiad sylweddol yn nyluniad a chanlyniadau'r astudiaethau ac yn yr is-agweddau ar gydlyniant cymdeithasol ar draws

y dystiolaeth, cyflwynir y canfyddiadau canlynol yn ôl math o ymyriad:

- **Ymyriadau cyswllt:** mae'r dulliau hyn yn seiliedig ar y syniad y gall dod â phobl o wahanol grwpiau cymdeithasol at ei gilydd, o dan yr amodau iawn, helpu pobl i dderbyn amrywiaeth drwy leihau rhagfarn (Hatch et al., 2025). Ar y cyfan, dengys y dystiolaeth y gall ymyriadau cyswllt wella agwedd pobl at ystod o grwpiau (Hatch et al., 2025; Hsieh et al., 2021), yn enwedig o'u cyfuno ag elfennau addysgol (Banas et al., 2020; Bartos et al., 2014). Fodd bynnag, dengys cyswllt sy'n digwydd ar-lein, drwy fideos neu realiti rhithwir, ganlyniadau cymysg a gall hyd yn oed waethygu rhagfarn (Hesketh et al., 2023). Hefyd, cynhelir astudiaethau'n aml mewn lleoliadau rheoledig fel ysgolion, gan godi cwestiynau am ba mor dda y mae'r canfyddiadau'n trosi i gyd-destunau byd go iawn.
- **Ymyriadau addysg, gwybodaeth a hyfforddiant:** defnyddir ymyriadau addysg a chodi ymwybyddiaeth yn eang i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ar draws gwahanol grwpiau (Orazani et al., 2023). Gall darparu gwybodaeth strwythuredig am 'all-grŵp', er enghraifft drwy egluro'r heriau penodol a wynebwr ganddynt, leihau rhagfarn tuag at grwpiau penodol (Hatch et al., 2025). Dengys rhaglenni gwrth-ragfarn hefyd effeithiau cadarnhaol ymhlith plant (Slobodin et al., 2023; Stefaniak et al., 2020). Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth gyffredinol fod ymyriadau addysg a chodi ymwybyddiaeth yn cael llai o effaith na'r ymyriadau cyswllt (Paluck et al., 2020). Gall rhai effeithiau gael eu gor-ddatgan mewn astudiaethau llai (Paluck et al., 2020) ac mae dyluniad gwahanol yr astudiaethau'n ei gwneud yn anodd asesu effeithiolrwydd cymharol gwahanol ddulliau (Slobodin et al., 2023).

- **Ymyriadau gwirfoddoli:** dengys astudiaethau'n gyson fod perthynas gadarnhaol dau-gyfeiriadol rhwng gwirfoddoli a chanlyniadau cydlyniant, a bod cryfhau gwirfoddoli'n hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, ac fel arall (Abrams et al., 2023a; Davies et al., 2024). Fodd bynnag, mae gwirfoddoli ffurfiol drwy sefydliadau – sy'n fwy cyffredin ymhlith grwpiau sydd eisoes dan anfantais – yn rhoi mwy o fanteision cydlyniant cymdeithasol na gwirfoddoli anffurfiol (h.y. y tu allan i strwythurau sefydliadol) (Horsham et al., 2024). Mae hyn yn codi pryderon y gall mentrau gwirfoddoli atgyfnerthu anghydraddoldeb yn anfwriadol (Abrams et al., 2023b).
- **Ymyriadau lle a gofod:** dangoswyd bod ymyriadau sy'n cydnabod rôl seilwaith cymunedol mewn gwella cysylltiadau cymdeithasol a lles y gymuned (e.e. hybiau cymunedol, dyluniad y gymdogaeth a phrosiectau natur) yn helpu cydlyniant cymdeithasol drwy ddod â gwahanol grwpiau cymdeithasol a gwahanol genedlaethau at ei gilydd, yn cryfhau rhwydweithiau cymunedol a meithrin ymddiriedaeth ac ymdeimlad o berthyn (Social Value Cymru, 2025; Bagnall et al., 2019; Fatehrad et al., 2024). Fodd bynnag, dangosir hefyd bod rhwystrau i gyfranogi, gan gynnwys cyfyngiadau ariannol a phryderon diogelwch (Fatehrad et al., 2024). Gall rhai ymyriadau hefyd gael canlyniadau negyddol anfwriadol i gydlyniant, fel allgau (Bagnall et al. 2019, 2023).
- **Strategaethau a rhaglenni cydlyniant:** mae'r dystiolaeth o Gymru ac ar draws y DU yn awgrymu bod buddsoddi mewn strategaethau a rhaglenni cydlyniant wedi eu cydgysylltu'n cryfhau cydlyniant ar lefel leol (Lalot et al., 2022; Robinson et al., 2013). Gwelir hefyd welliannau mewn cydlyniant cymdeithasol mewn awdurdodau lleol sy'n gosod targedau cydlyniant uchelgeisiol (Andrews et al.,

cited in Cairns et al., 2022). Mae pa mor effeithiol yw dulliau cydgysylltiedig yn dibynnu'n drwm ar gapasiti dynodedig ar lefel llywodraeth leol a chenedlaethol a hefyd ar gymorth sefydliadol (Robinson et al., 2013).

- **Ymyriadau iechyd a lles:**

dangoswyd bod rhaglenni gweithgarwch corfforol, prosiectau iechyd cyhoeddus, ac ymyriadau iechyd meddwl a chorfforol yn cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau ar gydlyniant cymdeithasol, gan gynnwys ymdeimlad o berthyn, ymddiried mewn eraill a pherthnasoedd cymdeithasol â'r gymuned ehangach. Mae'r dystiolaeth gryfaf ar gyfer nifer fach o ymyriadau a werthuswyd yn drylwyr, fel y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol, gyda chanfyddiadau mwy cymysg ar gyfer dulliau eraill. Mae hefyd yn aneglur pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol gyda chefnogi newid ar lefel gymuned neu unigolion (Cairns et al., 2022).

- **Ymyriadau ar-lein:** mae'r dystiolaeth o ymyriadau i leihau niwed ar-lein yn canolbwyntio'n bennaf ar eu rôl mewn cryfhau gwydnwch cymunedol i eithafiaeth. Mewn un astudiaeth, llwyddodd dileu cynnwys ar-lein niweidiol i leihau casineb mewn postiadau cyfryngau cymdeithasol a throseddau casineb all-lein drwy leihau cyfle ar gyfer 'byddino' torfol (Duran et al., 2025). Profwyd hefyd fod gwrth-areithio, sy'n cynnwys ymateb i siarad casineb mewn ffordd sy'n herio, yn llwyddiannus pan fo'n seiliedig ar empathi (Hangartner et al., 2021) ac wedi'i anfon o gyfrifon ffug dynion gwyn gyda nifer fawr o ddilynwyr (Munger, 2017). Yn olaf, dangosodd astudiaeth yn edrych ar allgymorth uniongyrchol gydag unigolion mewn perygl o gael eu radicaleiddio newid cadarnhaol mewn agweddau neu barodrwydd i ymgysylltu ymhellach (Davey, Birdwell and Skellet, 2018).

Fodd bynnag, mae diffyg gwerthusiadau ansawdd uchel yn ei gwneud yn anodd penderfynu effaith gyffredinol ymyriadau ar-lein ar gydlyniant cymdeithasol (Hesketh et al., 2023).

Gweithredu polisi posib yng Nghymru

Er bod y dystiolaeth yn cynnig mewnwelediad defnyddiol, mae er hynny'n anodd creu argymhellion polisi clir i Gymru. Mae hyn oherwydd yr her o benderfynu pa ymyriadau sydd fwyaf effeithiol a hefyd oherwydd nifer o fylchau allweddol yn y dystiolaeth.

Mae'r astudiaethau a werthuswyd yn canolbwyntio'n drwm ar ymyriadau un lefel sy'n targedu unigolion, grwpiau, neu berthnasoedd rhwng grwpiau. Mae llawer llai o dystiolaeth o effeithiolrwydd dulliau polisi lefel genedlaethol, strwythurol neu aml-lefel, er eu potensial i ddarparu mwy o effaith a goblygiadau cliriach ar gyfer gweithredu polisi. Felly hefyd, prin iawn oedd y dystiolaeth o ymyriadau a ddyluniwyd i ddatrys tensiynau dwys yn y gymuned er i hyn ddod yn bryder polisi mwyfwy taer yng Nghymru ac ar draws y DU (Senedd Cymru 2025).

Er yr heriau hyn, dengys y dystiolaeth fod sawl maes i Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eu hystyried wrth adnabod gweithredu polisi posib ar gyfer Cymru.

- **Ymyrryd yn gynnar mewn bywyd:** mae ymyriadau'n tueddu i fod fwyaf effeithiol o'u cyflwyno mewn plentyndod ac yn y glasoed oherwydd bod agweddau'n dal i newid (Orazani et al., 2023; Hsieh et al., 2021). Dangoswyd bod gan raglenni mewn ysgolion, yn enwedig, botensial i leihau rhagfarn a chryfhau'r berthynas rhwng gwahanol grwpiau. Mae hyn yn dangos yn glir bod angen ystyried sut i gefnogi ysgolion a gwasanaethau eraill i blant a phobl ifanc i gryfhau cydlyniant yn well.
- **Ymgorffori elfennau o gyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio:** ar draws yr astudiaethau, dangoswyd bod cynnwys y gymuned mewn dyluniad a darparu ymyriadau'n un o'r

cynhwysion llwyddiant pwysicaf gan greu manteision ehangach a mwy o ymddiried mewn sefydliadau cyhoeddus (Orazani et al., 2023). Roedd astudiaethau hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig oedd ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl, gan gynnwys rhai ar yr ymylon neu na chlywir eu lleisiau'n aml (Bagnall et al., 2023). Gallai ymgysylltu cynhwysol gynnwys datblygu gofodau sy'n parchu diwylliant y gymuned (Fatehrad et al., 2024) ac ystyried datblygu ymddiriedaeth â chymunedau bregus (Daykin et al., 2021).

- **Datblygu ymyriadau cyffredinol:** er y gall prosesau cyd-ddylunio gynyddu ymgysylltu ag ymyriadau, mae cyrraedd grwpiau gyda llai o ddiddordeb yn her o hyd. Gallai ymyriadau y gellir eu darparu'n ehangach felly fod yn fwy effeithiol gyda chyrraedd unigolion na fyddai fel arall yn ymgysylltu ag ymyriadau penodol (Orazani et al., 2023). Mae ymyriadau cyffredinol fel addysg a chodi ymwybyddiaeth seiliedig ar y gweithle'n dangos potensial cryf (Hatch et al., 2025), yn enwedig o'u cyfuno ag elfennau o ymyriadau cyswllt.
- **Cryfhau'r cysylltiad rhwng gwirfoddoli a chydlyniant:** dengys tystiolaeth er y gall gwirfoddoli a chanlyniadau cydlyniant atgyfnerthu ei gilydd, nad yw hyn yn awtomatig oherwydd gall manteision gwirfoddoli gael eu dosbarthu'n anwastad ar draws cymunedau. Mae hyn yn dangos bod angen polisiâu sy'n mynd i'r afael yn benodol â'r cysylltiad rhwng y ddau ac sy'n fwy bwriadol o ran sicrhau bod ymyriadau gwirfoddoli'n cryfhau cydlyniant *rhwng* grwpiau ac nid yn unig *o fewn iddynt*.
- **Buddsoddi mewn seilwaith cymunedol a dyluniad cymdogaeth:** Mae Bagnall et al. (2023) yn nodi'n glir bod angen buddsoddi'n ddigonol mewn seilwaith cymunedol, ynghyd â chyllid mwy hirdymor ac ymgysylltu cynhwysol. Dylid ystyried canlyniadau cydlyniant yn llawn wrth gynllunio a dylunio

cymdogaeth oherwydd y risg o allgau rhai grwpiau'n anfwriadol. Gallai hyn gynnwys asesu effeithiau posib polisiâu'n ymwneud ag ymyriadau lle a gofod ar anghydraddoldebau lles a chynnwys cymunedau'n ystyrlon (Bagnall et al., 2023).

- **Buddsoddi mwy mewn gweithredu lleol strategol wedi'i gydgyssylltu:** mae canfyddiadau astudiaethau'n asesu effeithiolrwydd strategaethau cydlyniant lleol yn glir bod angen buddsoddi mwy mewn gweithredu lleol wedi'i gydgyssylltu. Dengys y dystiolaeth, yn enwedig, werth cysylltu cyllid cydlyniant cenedlaethol i fuddsoddi mewn capasiti lleol a chydlynu strategol. Gallai gweithredu contractau perfformiad gyda thargedau cydlyniant cymdeithasol uchelgeisiol hefyd fod yn ddefnyddiol i lunwyr polisi sydd am wella canlyniadau cydlyniant.
- **Cryfhau'r dystiolaeth o ymyriadau i gryfhau cydlyniant:** mae nifer o astudiaethau'n argymhell cryfhau'r dystiolaeth o ymyriadau cydlyniant cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ffyrdd mwy cyson o fesur cydlyniant a gwerthuso ymyriadau dros gyfnod hirach i helpu i asesu parhad yr effeithiau a sefydlu achosion. Maen nhw hefyd yn argymhell mesur newid ymddygiad yn lle dibynnu ar hunan-adrodd yn unig.
- **Datrys tensiynau dwys yn y gymuned:** ymddengys bod hwn yn faes lle y mae ymchwil i ymyriadau cydlyniant cymdeithasol yn llusgo ar ôl llunio polisi ac ymarfer. Gallai polisiâu a phrosiectau fod ar y gweill yn barod i ymateb i densiynau, ond yn aml mewn amgylchiadau sy'n gwneud gwerthuso ffurfiol yn anoddach. Un o'r pethau i Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill ei ystyried yw sut i ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth eraill – er enghraifft arferion da lleol – i wella'r ymateb lleol a chenedlaethol i densiynau dwys yn y gymuned; a

- **Mynd i'r afael â phegynu ar-lein a thwyll-, cam- a drwgwybodaeth:** roedd tystiolaeth o ymyriadau i fynd i'r afael â phegynu ar-lein a lledaenu twyll-, cam- a drwgwybodaeth y tu allan i sgôp yr adolygiad hwn ond mae'n debygol o fod yn hynod berthnasol i adnabod gweithredu polisi posib i gryfhau cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru.

Casgliad

Mae'r briff polisi hwn yn tynnu sylw at botensial a chyfyngiadau'r dystiolaeth bresennol ar gyfer ymyriadau i gryfhau cydlyniant cymdeithasol. Er bod ystod eang o ddulliau'n dangos addewid ar draws gwahanol leoliadau, oherwydd cyfyngiadau'r dystiolaeth mae'n anodd o hyd dod i gasgliadau pendant ynghylch beth sy'n gweithio orau. Er hynny, mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at nifer o feysydd polisi i'w hystyried ymhellach ar gyfer datblygu gweithredu polisi i gryfhau cydlyniant yng Nghymru. Bydd parhau i fuddsoddi mewn gwerthuso ansawdd uchel yn hanfodol i ddeall pa ymyriadau sydd fwyaf effeithiol, sut i'w haddasu i gyd-destun Cymru a sut y gall liferi dylanwad cenedlaethol a lleol weithio orau gyda'i gilydd. Bydd cryfhau'r dystiolaeth fel hyn yn helpu i sicrhau bod polisiâu'r dyfodol i gefnogi cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru'n seiliedig ar waith ymchwil trylwyr ac yn ymatebol i'r heriau esblygol sy'n wynebu cymunedau.

Dogfennau Cyfeiriol

Abrams, D., Davies, B., & Horsham, Z. (2023a). **Causal Connections: Secondary Data Analyses of the Links Between Volunteering and Social Cohesion in the UK.** Prifysgol Caint. Codwyd o:

<https://kar.kent.ac.uk/101531/3/Causal%20Connections%20Non-Technical%20Report.pdf>

Abrams, D., Horsham, Z., & Davies, B. (2023b). **Literature Review - Linking Volunteering and Social Cohesion: Causal Evidence in the UK and Beyond.** Prifysgol Caint. Codwyd o:

<https://kar.kent.ac.uk/101468/3/Social%20cohes>

[ion%20and%20volunteering%20lit%20review_19_5_KAR.pdf](#)

Bagnall, A.M., South, J., Di Martino, S., Southby, K., Pilkington, G., Mitchell, B., Pennington, A., & Corcoran, R. (2019). **A systematic review of interventions to boost social relations through improvements in community infrastructure (places and spaces).** What Works Wellbeing. Codwyd o:

https://whatworkswellbeing.org/wp-content/uploads/2020/01/Places-spaces-people-wellbeing-full-report-MAY2018-1_0119755600.pdf

Bagnall, A.M., Southby, K., Jones, R., Pennington, A., South, J., & Cocoran, R., (2023). **Systematic review of community infrastructure (place and space) to boost social relations and community wellbeing: Five year refresh.** What Works Wellbeing. Codwyd o

<https://whatworkswellbeing.org/wp-content/uploads/2023/01/Places-and-Spaces-Review-Refresh-31-Jan-2023-final-with-logos.pdf>

Banas, J., Bessarabova, E., & Massey, Z. (2020). **Meta Analysis on Mediated Contact and Prejudice.** Human Communication Research, 46(2-3), 120-160. Codwyd o:

<https://doi.org/10.1093/hcr/hqaa004>

Bartos, S., Berger, I., & Hegarty, P. (2014). **Interventions to Reduce Sexual Prejudice: A Study-Space Analysis and Meta-Analytic Review.** The Journal of Sex Research, 51(4), 363-382. Codwyd o:

<https://doi.org/10.1080/00224499.2013.871625>

Cairns, M., Maguire, R., Abdallah, S., Zeilder, L., & Tipaldy-Startin, K. (2022). **What works to improve social capital? A rapid review of the effectiveness of interventions aimed at improving social capital outcomes (neighbourhood belonging, social support network and community cohesion).** Centre for Thriving Places. Codwyd o:

https://www.centreforthrivingplaces.org/wp-content/uploads/2022/10/Social-Capital-Rapid-Review_final-20.09.22-4.pdf

Davey, J., Birdwell, K., & Skellett, R. (2018). **Counter-Conversations: A model for direct engagement with individuals showing signs of radicalisation online.** Institute for Strategic Dialogue. Codwyd o:

https://www.isdglobal.org/wp-content/uploads/2018/03/Counter-Conversations_FINAL.pdf

Davies, B., Abrams, D., Horsham, Z., & Lalot, F. (2024). **The Causal Relationship Between Volunteering and Social Cohesion: A Large Scale Analysis of Secondary Longitudinal Data.** Social Indicators Research 171. 809-825. Codwyd o:

<https://link.springer.com/article/10.1007/s11205-023-03268-6>

Daykin, N., Mansfield, L., Meads, C., Gray, K., Golding, A., Tomlinson, A., & Victor, C. (2021). **The role of social capital in participatory arts for wellbeing: findings from a qualitative systematic review.** Arts & Health, 13(2), 134-157). Codwyd o:

<https://doi.org/10.1080/17533015.2020.1802605>

Duran, R., Muller, K., & Schwarz, C. (2025). **The Online and Offline Effects of Content Moderation: Evidence from Germany's NetzDG.** SSRN Electronic Journal. Codwyd o:

<https://ssrn.com/abstract=4230296>

Fatehrad, A., Natalini, D., Yohannes, H., & Palombo, G. (2024). **Nature-based integration: connecting communities with/in nature.** Sefydliad Nuffield. Codwyd o:

<https://www.nuffieldfoundation.org/wp-content/uploads/2022/05/Nature-based-Integration-Final-Report.pdf>

Hangarther, D., Gennaro, G., Alasiri, S., & Donnay, K. (2021). **Empathy-based counterspeech can reduce racist hatespeech in a social media field experiment.** Proceedings of the Natural Academy of Sciences, 118(50). Codwyd o:

<https://doi.org/10.1073/pnas.2116310118>

Hatch, H., Warner, R., Grundy, M., & Heck, K. (2025). **Effectiveness of Interventions for**

Transgender Prejudice Reduction: A Meta-Analysis. Sex Roles, 91(17). Codwyd o:

<https://link.springer.com/article/10.1007/s11199-025-01558-6>

Hesketh, R., Lawson, G., Haggard, T., Norman, C., & Ventura-Arrieta, M. (2023). **What works in social cohesion and overcoming tensions.** Y Sefydliad Polisi. Codwyd o:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65fd740165ca2f00117da8ad/What_Works_in_Social_Cohesion_and_Overcoming_Tensions.pdf

Horsham, Z., Abrams, D., Davies, B., & Lalot, F. (2024). **Social cohesion and volunteering: Correlates, causes, and challenges.** Translational Issues in Psychological Science, 10(1), 51-68. Codwyd o:

<https://psycnet.apa.org/fulltext/2024-69058-003.html>

Hsieh, W., Faulkner, N., & Wickes, R. (2021). **What reduces prejudice in the real world? A meta-analysis of prejudice reduction field experiments.** Cymdeithas Seicolegol Prydain, 61(3), 689-710. Codwyd o:

<https://doi.org/10.1111/bjso.12509>

Lalot, F., Abrams, D., Broadwood, J., Davies Hayon, K., & Platts-Dunn, I. (2022). **The social cohesion investment: Communities that invested in integration programmes are showing greater social cohesion in the midst of the COVID-19 pandemic.** Community & Applied Social Psychology, 32(3), 536-554. Codwyd o:

<https://doi.org/10.1002/casp.2522>

Munger, K. (2017). **Tweetment Effects on the Tweeted: Experimentally Reducing Racist Harassment.** Political Behaviour, 39, 629-649. Codwyd o:

<https://link.springer.com/article/10.1007/s11109-016-9373-5>

Orzani, N., Reynolds, K., & Osborne, H. (2023). **What works and why in interventions to strengthen social cohesion: A systematic review.** Journal of Applied Psychology, 53(10), 938-995. Codwyd o:

<https://doi.org/10.1111/jasp.12990>

Paluck, E., Porat, R., Clark, C., & Green, D. (2020). **Prejudice Reduction: Progress and Challenges**. Annual Review of Psychology, 72, 533-560. Codwyd o: <https://doi.org/10.1146/annurev-psych-071620-030619>

Robinson, D., Reeve, K., Platts-Fowler, D., Green, S., Walshaw, A., Batty, E., Bashir, N., Pearce, S., & Eadson, W. (2013). **Gwerthusiad o Cymru'n Cyd-Dynnu: Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru**. Llywodraeth Cymru. Codwyd o: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-cymrun-cyd-dynnu-strategaeth-cydlyniant-cymunedol-cymru>

Slobodin, O., Noufi, T., & Caspi, Y. (2023). **Interventions to reduce racial bias and prejudice in preschool children: A systematic review of the literature since 2010**. School Mental Health, 15, 1017-1032. Codwyd o: <https://link.springer.com/article/10.1007/s12310-023-09608-8>

Social Value Cymru. (2025). **The Social Impact of Northeast Wales Multicultural Hub**.

Codwyd o: <https://www.mantellgwynedd.com/downloads/120325-mch-sroi-report.pdf>

Stefaniak, A., Wohl, M. J. A., Bilewicz, M., & Petelewicz, J. (2022). **Leveraging knowledge about historical diversity: A meta-analysis of finding from the school of dialogue intergroup intervention**. Peace and Conflict: Journal of Peace Psychology, 28(3), 314-326. Codwyd o: <https://psycnet.apa.org/record/2023-14262-002>

Llywodraeth Cymru. (2024). **Cydlyniant Cymdeithasol**. Codwyd o: <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=45053>

Llywodraeth Cymru. (2026). **Egwyddorion Cydlyniant Cymunedol i Ymarferwyr**. Codwyd o: <https://www.llyw.cymru/egwyddorion-cydlyniant-cymunedol-i-ymarferwyr>

Senedd Cymru. (2025). **Cyd-Dynnu, nid Tynnu'n Groes**. Codwyd o: <https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/cr-ld17466-cy.pdf>

Dysgu mwy

Am yr adroddiad llawn dylid darllen: Adolygiad o'r dystiolaeth o gydlyniant cymdeithasol

Amdan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, cydweithredwn ag arbenigwyr polisi blaenllaw i gyflwyno tystiolaeth o ansawdd uchel a rhoi cyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Wedi'i hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth

Cymru, a Phrifysgol Caerdydd, lleolir y Ganolfan ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith *What Works* y DU.

Am fwy o wybodaeth dylid cysylltu gyda:

Rosalind Phillips

+44 (0)29 2087 5345

Rosalind.phillips@wcppp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



Prifysgol Caerdydd, sbarc | spark, Ffordd Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ



www.wcppp.org.uk/cy



info@wcppp.org.uk



029 2087 5345



www.linkedin.com/company/wcppp

